CYFARFOD COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU A GYNHALIWYD AR 18 MAWRTH 2009 YN NHŶ CARADOG, CAERDYDD

Comisiynwyr	Ysgrifenyddiaeth
Mr P J Wood (Cadeirydd)	Mr. E H Lewis (Ysgrifennydd)
Y Parch. H M Davies (Dirprwy Gadeirydd)	Mr. S R Halsall
Mr J Bader (Aelod)	Mr. D Carr
	Mrs L Brough
	Mr. R Handscomb

1. DATGANIAD BUDDIANNAU

1.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau newydd.

2. COFNODION CYFARFOD Y COMISIWN A GYNHALIWYD AR 11 CHWEFROR 2009

2.1 Cytunwyd ar y rhain

3. MATERION YN CODI

Adroddiad Ariannol 2008/09

3.1 Adroddwyd bod y Comisiwn wedi derbyn y costau trawsnewid gan Merlin a byddai'r anfoneb yn cael ei thalu yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Fframwaith Asesu Caffael Cynaliadwy'r Sector Cyhoeddus

3.2 Anfonwyd y Cynllun Gweithredu at Werth Cymru ar ddiwedd mis Chwefror 2009.

4. Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru – cynnydd ei roi ar waith

4.1 Roedd mwy o waith yn cael ei wneud ar y Cynllun Corfforaethol a datblygwyd a dosbarthwyd y Cylchlythyr mewn ymateb i'r argymhelliad y dylid gwella cyfathrebu â rhanddeiliaid. Byddai amlinelliad drafft o'r Cynllun Strategol yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod Mai. Cafwyd ateb hefyd gan Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch y Datganiad Rheoli a'r Memorandwm Ariannol (MSFM). Nodwyd yn y llythyr y byddai'r Comisiwn yn cael fersiwn derfynol yn fuan ar ôl cyhoeddi'r model diwygiedig. Roedd yr ymarfer model diwygiedig i'w gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon. **Cytunwyd** y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Parhaol pe na dderbyniwyd yr MSFM o fewn y terfyn amser a nodwyd yn y llythyr.

5. AROLWG CYMUNEDOL ABERTAWE – YSTYRIAETH O'R CYNRYCHIOLIADAU DRAFFT

5.1 Roedd y Comisiwn wedi derbyn sawl cynrychiolaeth mewn ymateb i'w Adroddiad Drafft a oedd yn cynnwys cynigion ar gyfer newidiadau i ffiniau nad oeddent wedi'u hystyried hyd yn hyn. Er mwyn i'r cynrychiolaethau hyn fod yn destun ymgynghori, byddai'n rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi Ail Gynigion Drafft ar eu cyfer. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn cyhoeddi Adroddiad Ail Gynigion Drafft ar gyfer y cynigion newydd hyn.

Llanrhidian Uchaf

5.2 Adroddwyd bod cynrychiolaeth wedi'i derbyn gan gynnwys deiseb o fwy na 400 o enwau yn cefnogi awgrym y Comisiwn sef y dylai Ward Three Crosses gael ei gwahanu oddi wrth Gymuned Llanrhidian Uchaf i ffurfio Cymuned ar wahân. **Cytunwyd** y byddai'r awgrym bellach yn cael ei fabwysiadu fel cynnig ar gyfer yr Adroddiad Terfynol.

5.3 O ran y newid i ffiniau Wardiau Penclawdd a Llanmorlais, **cytunwyd** y byddai'r awgrym hwn yn cael ei fabwysiadu fel newid ôl-ddilynol i drefniadau etholiadol Cymuned Llanrhidian Uchaf ar gyfer yr Adroddiad Terfynol.

Llangyfelach / Pontlliw a Thircoed

5.4 Roedd newid arfaethedig y Comisiwn i'r ffin rhwng Cymunedau Llangyfelach a Phontlliw a Thircoed wedi cael ei gefnogi gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe ac ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau. **Cytunwyd** y byddai'r cynnig hwn yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiad Terfynol.

Llangyfelach / Mynydd-bach

5.5 Roedd newid arfaethedig y Comisiwn i'r ffin rhwng Cymunedau Llangyfelach a Mynydd-bach wedi cael ei gefnogi gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe ac ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau. **Cytunwyd** y byddai'r cynnig hwn yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiad Terfynol.

Cocyd / Townhill

5.6 Adroddwyd bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe a sawl cynghorydd lleol wedi gwrthwynebu newid arfaethedig y Comisiwn i'r ffin rhwng Cocyd a Townhill. Ni dderbyniwyd unrhyw gynrychiolaethau o blaid y newid arfaethedig. Roedd Cyngor Dinas a Sir Abertawe o'r farn y dylid cadw'r ffin bresennol tra bod y cynghorwyr lleol wedi datgan y dylid cynnwys Webbon Way i gyd yng Nghymuned Townhill.

5.7 Roedd Aelodau o'r farn bod y ffin bresennol yn anomaledd yr oedd angen mynd i'r afael ag ef. Gan na chefnogwyd cynnig gwreiddiol y Comisiwn, a oedd yn cynnwys trosglwyddo etholwyr, ystyriwyd bod y cynnig a gyflwynwyd gan y cynghorwyr lleol yn un gwell gan nad oedd yn cynnwys unrhyw etholwyr. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn cynnwys cynnig y cynghorwyr lleol, sef symud Webbon Way i gyd i Gymuned Townhill, yn yr Adroddiad Terfynol.

Cocyd / Penderi

5.8 Adroddwyd bod newid arfaethedig y Comisiwn i'r ffin rhwng Cymunedau Cocyd a Phenderi yn Llwyn Teg a Pharc Manwerthu Heol Pontarddulais wedi cael ei

gefnogi gan y Gwir Anrhydeddus Alan Williams AS. Gwrthwynebwyd y newid gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe a Phlaid Lafur Ward Penderi. Cyflwynwyd cynnig arall gan sawl cynghorydd lleol a fyddai'n golygu symud yr eiddo yn Llwyn Teg o Gymuned Penderi i Gymuned Cocyd ond gadael Parc Manwerthu Heol Pontarddulais yng Nghymuned Penderi.

5.9 Roedd Aelodau o'r farn bod y ffin bresennol yn anomaledd yr oedd angen mynd i'r afael ag ef. Nid oedd y cynnig amgen a gyflwynwyd gan y cynghorwyr lleol yn mynd i'r afael â'r anomaledd, sef bod y ffin bresennol yn rhannu Parc Manwerthu Heol Pontarddulais. **Cytunwyd** cynnwys cynnig gwreiddiol y Comisiwn i symud Llwyn Teg a Pharc Manwerthu Heol Pontarddulais o Gymuned Penderi i Gymuned Cocyd yn yr Adroddiad Terfynol gan mai dyma'r dewis gorau o ran cymuned buddiant, mynediad a ffin wedi'i diffinio'n eglur.

5.10 Adroddwyd bod newid arfaethedig y Comisiwn i'r ffin rhwng Cymunedau Cocyd a Phenderi yn Courtlands Way a'r ardal o gwmpas wedi cael ei gefnogi gan y Gwir Anrhydeddus Alan Williams AS. Fe'i gwrthwynebwyd gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe a Phlaid Lafur Ward Penderi. Cyflwynwyd cynnig arall gan sawl cynghorydd lleol a fyddai'n golygu symud yr eiddo yn Courtlands Way o Gymuned Cocyd i Gymuned Penderi.

5.11 Roedd Aelodau o'r farn bod y ffin bresennol yn anomaledd o ran mynediad i'r ffyrdd yn cysylltu â Courtlands Way, yr oedd angen mynd i'r afael ag ef. Roedd y cynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr lleol yn methu â mynd i'r afael ag anomaledd y ffin bresennol gan y byddai mynediad i Courtlands Way yn parhau o hyd drwy Gymuned Cocyd. **Cytunwyd** cynnwys cynnig gwreiddiol y Comisiwn, sef trosglwyddo Courtlands Way, Beaufort Court, Richmond Way, Cranmer Court a Chantry Court o Gymuned Penderi i Gymuned Cocyd, yn yr Adroddiad Terfynol gan mai dyma'r dewis gorau o ran cymuned buddiant, mynediad a ffin wedi'i diffinio'n eglur.

Glandŵr / Treforys

5.12 O ganlyniad i newid arfaethedig y Comisiwn i'r ffin rhwng Cymunedau Glandŵr a Threforys yn Ystâd Ddiwydiannol Plasmarl Industrial cafwyd cynrychiolaethau oddi wrth Gyngor Dinas a Sir Abertawe a chynghorydd lleol. Roeddent ill dau wedi gwneud cynnig arall, sef peidio â chynnwys trosglwyddo'r cyfleusterau hamdden i'r de o'r Ystâd Ddiwydiannol a'i gadw yng Nghymuned Glandŵr. Derbyniodd y Comisiwn y byddai'r cynnig amgen yn mynd i'r afael â'r anomaledd yn y ffin bresennol wrth gadw'r cyfleusterau hamdden sy'n gysylltiedig â Chymuned Glandŵr yn y Gymuned honno. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn cynnwys y cynnig amgen yn yr Adroddiad Terfynol, sef symud Ystâd Ddiwydiannol Plasmarl yn unig, ac nid y meysydd hamdden, o Gymuned Glandŵr i Gymuned Treforys.

Bôn-y-maen / Llansamlet

5.13 Roedd newid arfaethedig y Comisiwn i'r ffin rhwng Cymunedau Bôn-y-maen a Llansamlet wedi cael ei gefnogi gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe ac ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau. **Cytunwyd** y byddai'r cynnig hwn yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiad Terfynol.

Penllergaer / Llwchwr

5.14 Adroddwyd bod newid arfaethedig y Comisiwn i'r ffin rhwng Cymunedau Penllergaer a Llwchwr yn Ysbyty Garngoch wedi cael ei gefnogi gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe. Gwrthwynebwyd y Cynnig gan Edwina Hart AC a chynghorydd lleol. Cyflwynwyd cynnig amgen gan Gyngor Tref Llwchwr a oedd yn cadw rhan o gynnig gwreiddiol y Comisiwn ond yn gadael Ysbyty Garngoch yng Nghymuned Llwchwr. Ystyriodd y Comisiwn y ddadl a gyflwynwyd gan Gyngor Tref Llwchwr a'r cynghorydd lleol fel ei gilydd, sef nad oedd unrhyw gysylltiad hanesyddol rhwng Ysbyty Garngoch a Phenllergaer. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn cynnwys y cynnig amgen i symud y rhan honno nad oedd yn cynnwys Ysbyty Garngoch o Gymuned Llwchwr i Gymuned Penllergaer yn yr Adroddiad Terfynol.

Penllergaer / Llangyfelach

5.15 Roedd y newid awgrymedig i'r ffin rhwng Cymunedau Penllergaer a Llangyfelach yng Nghoed Cwm Penllergaer wedi cael ei gefnogi gan y cynghorydd lleol a'i cyflwynodd yn wreiddiol ond ni dderbyniwyd unrhyw gefnogaeth arall iddo. **Cytunwyd** i beidio â chynnwys yr awgrym hwn yn yr Adroddiad Terfynol.

Clydach / Birchgrove

5.16 Roedd newid arfaethedig y Comisiwn i'r ffin rhwng Cymunedau Clydach a Birchgrove i gynnwys pentref Y Glais i gyd yng Nghymuned Birchgrove wedi cael cefnogaeth gan bum cynrychiolaeth gan gynnwys deiseb o 63 o enwau. Gwrthwynebwyd y cynnig gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe a Chyngor Cymuned Clydach. Ystyriodd Aelodau'r dadleuon a gyflwynwyd gan y ddwy ochr a oedd yn honni bod gan Y Glais gysylltiadau hanesyddol â naill ai Clydach neu Birchgrove. Honnodd Cyngor Cymuned Clydach fod preswylwyr Y Glais yn defnyddio cyfleusterau Clydach. Roedd Aelodau o'r farn mai un endid oedd Y Glais a ddylai fod yn gyfan gwbl mewn un cymuned. Gwnaethant nodi bod preswylwyr yn defnyddio cyfleusterau yng Nghlydach a bod y pentref wedi'i leoli yn agosach at ardaloedd adeiledig tebyg yng Nghlydach na Birchgrove a'i fod mwy yng Nghwm Tawe. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn cynnig cynnwys Pentref Y Glais yn gyfan gwbl yng Nghymuned Clydach ar gyfer eu Hadroddiad Terfynol.

Dynfant / Cilâ Uchaf

5.17 Roedd newid arfaethedig y Comisiwn i'r ffin rhwng Cymunedau Dynfant a Chilâ Uchaf yn Llwybr Ddôl wedi cael ei gefnogi gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe ac ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau. **Cytunwyd** y byddai'r cynnig hwn yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiad Terfynol.

Clydach / Treforys

5.18 Adroddwyd bod newid arfaethedig y Comisiwn i'r ffin rhwng Cymunedau Clydach a Threforys wedi cael ei gefnogi gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe a Chyngor Cymuned Clydach. Roedd Cyngor Cymuned Clydach hefyd o'r farn y dylid symud ardal Pen-y-Rhedyn o Gymuned Treforys i Gymuned Clydach. Roedd yr Aelodau, fodd bynnag, o'r farn bod ardal Pen-y-Rhedyn o natur wledig debyg i ardal gyfagos Treforys. Gwrthwynebwyd y cynnig gan gynghorydd lleol a ddatganodd mai trwy Glydach yn unig y byddai mynediad i Ben-y-Rhedyn pe bai ailaliniad arfaethedig y

ffin yn cael ei weithredu. Nodwyd, fodd bynnag, bod ymweliad staff wedi penderfynu y gellid cyrraedd Pen-y-Rhedyn o Dreforys neu Glydach. Cytunwyd y byddai'r Comisiwn yn yr Adroddiad Terfynol yn cadw at ei gynnig gwreiddiol i drosglwyddo Caermawr o Dreforys i Glydach ond nid Pen-y-Rhedyn.

Llangyfelach / Treforys

5.19 Cefnogwyd newid arfaethedig y Comisiwn i'r ffin rhwng Cymunedau Llangyfelach a Threforys yn Heol Pant Lasau Road gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe. Fodd bynnag, roedd y Cyngor wedi awgrymu hefyd efallai y byddai'r Comisiwn am symud yr ardal i Gymuned Mawr fel dewis posibl. Dywedodd Cyngor Cymuned Mawr eu bod hwy o'r farn y dylid trosglwyddo'r ardal i'w Cymuned hwy. Roedd yr Aelodau o'r farn bod lleoliad a siâp yr ardal i'w throsglwyddo yn ei gwneud yn fwy parod a hwylus i'w symud i ardal gyfagos Llangyfelach yn hytrach na Mawr. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn cadw eu cynnig gwreiddiol i symud yr ardal ar hyd Heol Pant Lasau o Gymuned Treforys i Gymuned Llangyfelach ar gyfer yr Adroddiad Terfynol.

Townhill

5.20 Awgrymodd y Comisiwn yn yr Adroddiad Drafft rannu Cymuned Townhill yn ddwy gymuned ar wahân, sef Townhill a Mayhill. Derbyniwyd cynrychiolaethau a oedd o blaid ac yn erbyn y cynnig hwn ac roedd Aelodau o'r farn bod dadleuon y ddwy ochr yn ddilys. Nodwyd nad oedd gan Townhill gyngor cymuned a bod cyfleusterau yn cael eu rhannu drwy'r gymuned. Roedd o'r farn hefyd bod ychydig mwy o gynrychiolaeth o blaid cadw'r trefniant presennol. **Cytunwyd** y byddai'n ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus i gadw'r drefn gymunedol bresennol ar gyfer Townhill.

Townhill / Castell

5.21 Roedd newid arfaethedig y Comisiwn i'r ffin rhwng Cymunedau Townhill a Chastell yn Nicander Place wedi cael ei gefnogi gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe ac ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau. **Cytunwyd** y byddai'r cynnig hwn yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiad Terfynol.

Penderi / Cwmbwrla

5.22 Roedd newid arfaethedig y Comisiwn i'r ffin rhwng Cymunedau Penderi a Chwmbwrla yn Heol Brenig wedi cael ei gefnogi gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe a Phlaid Lafur Ward Penderi. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau. **Cytunwyd** y byddai'r cynnig hwn yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiad Terfynol.

Gorseinon / Grovesend a Waungron

5.23 Roedd newid arfaethedig y Comisiwn i'r ffin rhwng Cymunedau Gorseinon a Grovesend a Waungron wedi cael ei gefnogi gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe a Chyngor Tref Gorseinon. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau. **Cytunwyd** y byddai'r cynnig hwn yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiad Terfynol.

Gorseinon / Llwchwr

5.24 Adroddwyd bod newid arfaethedig y Comisiwn i'r ffin rhwng Cymunedau Gorseinon a Llwchwr wedi cael ei gefnogi gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe a Chyngor Tref Gorseinon. Fe'i gwrthwynebwyd gan Edwina Hart AC a Chyngor Tref Llwchwr. Roedd Cyngor Tref Llwchwr wedi cyflwyno gwrthgynnig i ailalinio'r ffin i'r gogledd o'r ffin bresennol. Roedd Aelodau o'r farn bod eu cynnig gwreiddiol yn cyflwyno ffin resymol, wedi'i diffinio'n eglur a oedd yn datrys yr anomaledd presennol o un mynediad i eiddo yn yr ardal drwy gymuned arall. Nid oedd y gwrthgynnig a gyflwynwyd gan Gyngor Tref Llwchwr yn datrys y mater o fynediad i'r eiddo drwy Gymuned Gorseinon yn unig a nodwyd bod y math o eiddo yn wahanol i'r eiddo cyfagos yng Nghymuned Llwchwr. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn cadw eu cynnig gwreiddiol i drosglwyddo ardal Heol Pant y Dŵr a Chlos y Nant o Gymuned Treforys i Gymuned Llangyfelach ar gyfer yr Adroddiad Terfynol.

5.25 Roedd newid arfaethedig y Comisiwn i'r ffin rhwng Cymunedau Gorseinon a Llwchwr wedi cael ei gefnogi gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe, Cyngor Tref Llwchwr a Chyngor Tref Gorseinon. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau. **Cytunwyd** y byddai'r cynnig hwn yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiad Terfynol.

Gorseinon / Penllergaer

5.26 Roedd newid arfaethedig y Comisiwn i'r ffin rhwng Cymunedau Gorseinon a Phenllergaer wedi cael ei gefnogi gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe a Chyngor Tref Gorseinon. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau. **Cytunwyd** y byddai'r cynnig hwn yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiad Terfynol

Castell / Glandŵr

5.27 Roedd Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi cyflwyno cynnig newydd i drosglwyddo nifer o eiddo ym Mhentre o Gymuned Castell i Gymuned Glandŵr. Roedd yr Ysgrifenyddiaeth wedi ymweld â'r ardal a gwelwyd bod y ffin arfaethedig wedi'i diffinio'n eglur a'i bod yn well o ran mynediad i'r eiddo hynny a oedd yn bennaf drwy Gymuned Glandŵr. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn mabwysiadu'r cynnig hwn ar gyfer eu Hail Adroddiad Drafft.

Cocyd / Penderi

5.28 Adroddwyd bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe a sawl cynghorydd lleol wedi cyflwyno cynnig newydd i symud nifer o eiddo yn Heol Calfin, Ffordd y Brain a Rhodfa'r Brain o Gymuned Cocyd i Gymuned Penderi. Ni allai Aelodau weld nemor ddim tystiolaeth y byddai ailaliniad o'r fath er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ac roeddent o'r farn bod y ffin bresennol yn ymddangos yn rhesymegol ac wedi'i diffinio'n glir. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn nodi'r awgrym hwn yn eu Hail Adroddiad drafft ond ni fyddent yn ei fabwysiadu fel cynnig.

Llandeilo Ferwallt / Pennard

5.29 Roedd cynghorydd lleol wedi cyflwyno cynnig newydd i symud eiddo ynghyd ag adeiladau cyfagos o Gymuned Pennard i Gymuned Llandeilo Ferwallt. Roedd yr Ysgrifenyddiaeth wedi ymweld â'r ardal a gwelwyd bod y ffin arfaethedig wedi'i diffinio'n eglur a'i bod yn well o ran mynediad i'r eiddo hynny a oedd yn bennaf

drwy Gymuned Llandeilo Ferwallt. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn mabwysiadu'r cynnig hwn ar gyfer eu Hail Adroddiad Drafft.

5.30 Adroddwyd bod cynghorydd lleol wedi cyflwyno cynnig newydd i drosglwyddo nifer o eiddo yng nghyffiniau Cliff Cottage o Gymuned Pennard i Gymuned Llandeilo Ferwallt gan fod mynediad i'r eiddo hyn drwy Gymuned Llandeilo Ferwallt. Fodd bynnag, nodwyd o ystyried mapiau o'r ardal bod mynediad i'r eiddo o Gymuned Pennard. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn nodi'r awgrym hwn yn eu Hail Adroddiad Drafft ond ni fyddent yn ei fabwysiadu fel cynnig.

Llandeilo Ferwallt / Y Mwmbwls

5.31 Roedd cynghorydd lleol wedi cyflwyno cynnig newydd i symud eiddo masnachol ym Mae Caswell o Gymuned Y Mwmbwls i Gymuned Llandeilo Ferwallt gan fod ardal fasnachol glan y môr yn cael ei rhannu gan y ffin bresennol. Roedd Aelodau o'r farn bod nemor ddim tystiolaeth y byddai ailaliniad o'r fath er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ac ystyriwyd y gellid cadw'r ffin bresennol, gan nad oedd yn cynnwys unrhyw etholwyr. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn nodi'r awgrym hwn yn eu Hail Adroddiad Drafft ond ni fyddent yn ei fabwysiadu fel cynnig.

Mawr / Llangyfelach

5.32 Roedd Cyngor Cymuned Mawr wedi cyflwyno cynnig i ailalinio'r ffin rhwng Cymunedau Mawr a Llangyfelach ar hyd yr M4 / Heol Llangyfelach. Roedd Aelodau o'r farn y byddai newid o'r fath i'r ffin yn golygu trosglwyddo rhan sylweddol o Gymuned Llangyfelach i Gymuned Mawr a bod yr ardal dan sylw o natur debyg i'r ardal gyfagos yng Nghymuned Llangyfelach. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn nodi'r awgrym hwn yn eu Hail Adroddiad Drafft ond ni fyddent yn ei fabwysiadu fel cynnig.

Mawr / Pontarddulais

5.33 Roedd Cyngor Cymuned Mawr wedi cyflwyno cynnig i ailalinio'r ffin rhwng Cymunedau Mawr a Phontarddulais er mwyn trosglwyddo ardal Cwm Dulais o Gymuned Pontarddulais i Gymuned Mawr. Roedd Aelodau o'r farn bod ardal Cwm Dulais o natur debyg i ardaloedd cyfagos i'r gogledd a'r de o Bontarddulais. Yr oedd Cwm Dulais hefyd yn agosach at ardal drefol o Bontarddulais nag unrhyw ardal debyg ym Mawr. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn nodi'r awgrym hwn yn eu Hail Adroddiad Drafft ond ni fyddent yn ei fabwysiadu fel cynnig.

Clydach – Baran Carnllechart

5.34 Roedd Cyngor Cymuned Clydach wedi cyflwyno cynnig i drosglwyddo ardal Baran Carnllechart, Gellionnen i'w Cymuned. Fodd bynnag, ni allai'r Ysgrifenyddiaeth leoli'r ardal hon ar y map. Tybir bod Baran Carnllechart, Gellionnen ym Mwrdeistref Sirol Castedd-nedd Port Talbot ac felly y tu allan i gwmpas Arolwg Cymunedol Abertawe. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn nodi'r awgrym hwn yn eu Hail Adroddiad Drafft ond yn ei wrthod gan ei fod y tu allan i gwmpas arolwg Abertawe.

6. AROLWG CYMUNEDOL PEN-Y-BONT AR OGWR – YSTYRIAETH BELLACH.

6.1 Yng nghyfarfod mis Chwefror, cytunwyd ar adroddiad y Cynigion Terfynol ar gyfer arolwg Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr yn ddarostyngedig i gyngor cyfreithiol a mân newidiadau. Cyfeiriwyd at Ymgynghorydd Cyfreithiol y Comisiwn a wnaeth rai awgrymiadau ynghylch y cynnwys.

6.2 Ystyriodd y Comisiynwyr y penderfyniad gwreiddiol a wnaed ynghylch y ffin rhwng Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr a Chyngor Cymuned Merthyr Mawr. Roedd dau ddewis diwygiedig fel a ganlyn:

- Dewis 1 - mân beth sef newid y ffin yn Fferm yr Ynys ei hun a symud yr eiddo hynny yn unig i Ferthyr Mawr; neu
- Dewis 2 - Newid y gallai rhan ohono edrych yn fwy tebyg i'r cynnig gwreiddiol o ddefnyddio'r A48 fel ffin.

6.3 **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn dethol dewis 1 gan eu bod o'r farn y byddai er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Byddai hyn yn datrys yr anomaledd yn Ystâd Fferm yr Ynys.

7. AROLYGON ETHOLIADOL

7.1 Nododd Aelodau'r amserlen ddiweddaraf ac adroddwyd bod y gyfran gyntaf o Arolygon Etholiadol wedi cychwyn. Roedd dyddiadau rhai o'r Arolygon Etholiadol wedi'u newid er mwyn sicrhau nad oeddent yn cychwyn nes bod yr arolygon cymunedol cyfatebol wedi'u cwblhau. Byddai angen ysgrifennu at y Gweinidog dros Lywodraeth Leol ynghylch gallu'r Comisiwn i gadw at yr amserlen o ran cwblhau'r arolygon gan fod hyn yn ddibynnol ar Lywodraeth Cynulliad Cymru yn paratoi a chyhoeddi Gorchmynion. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifennydd yn paratoi llythyr i'r cadeirydd i'w anfon at y Gweinidog dros Lywodraeth Leol.

7.2 Nodwyd y gallai'r oedi i Arolygon Cymunedol Caerffili ac Abertawe olygu symud yr arolygon etholiadol hyn yn ôl ar yr amserlen. Roedd posibilrwydd y gellid symud Arolwg Conwy ymlaen a Cheredigion hefyd os na fydd y Cyngor yn cynnal arolwg cymunedol. **Cytunwyd** i ysgrifennu at Gyngor Sir Ceredigion i holi os oeddent yn bwriadu cynnal arolwg cymunedol yn eu hardal.

7.3 Adroddwyd y byddai Cyflwyniad Casnewydd yn digwydd ar 24 Mawrth 2009. **Cytunwyd** y byddai'r Cadeirydd a'r Ysgrifennydd yn mynychu'r digwyddiad. Bydd Cyflwyniad Castell-nedd Port Talbot yn digwydd ar 1 a 9 Ebrill 2009. **Cytunwyd** y byddai Aelod y Comisiwn a'r Ysgrifennydd yn ei fynychu. Bydd Cyflwyniad Sir Ddinbych yn digwydd ar 7 Ebrill 2009. **Cytunwyd** y byddai'r Dirprwy Gadeirydd a'r Ysgrifennydd yn ei fynychu. Hyd yn hyn, nid oes trefniadau wedi'u gwneud ar gyfer cyflwyniad Sir Y Fflint.

7.4 Derbyniwyd cwyn am i'r Comisiwn beidio â chyfeirio at Gasnewydd fel Dinas. Rhoddwyd esboniad ynghylch y materion cyfreithiol a'r cyngor a dderbyniwyd oddi wrth yr Ymgynghorydd Cyfreithiol. Roedd y mater wedi'i ddatrys. **Cytunwyd** y byddai adroddiad yn cael ei anfon i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio i roi cofnod o'r materion a godwyd.

7.5 Adroddwyd y byddai'r Cadeirydd a'r Ysgrifennydd yn ymweld â Chomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Yr Alban (LGBCS) ar daith casglu gwybodaeth ar gyfer yr arolygon etholiadol. Byddant yn ystyried system Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Yr Alban o ran categoreiddio cynrychiolaeth ar gyfer ardaloedd gwledig er mwyn gweld a allai'r Comisiwn fabwysiadu system o'r fath.

8. CYNLLUN CYHOEDDI

8.1 Nodwyd bod y cynllun cyhoeddi bellach wedi'i gwblhau. **Cytunwyd** derbyn y cynllun diwygiedig ac y byddai'n cael ei adolygu bob mis Mawrth er mwyn penderfynu beth y'u cyhoeddir.

9. AROLWG O'R FFIN RHWNG SIROEDD WEDI'U CADW POWYS A MORGANNWG GANOL YN ARDAL PONTSTICILL

9.1 Adroddwyd bod y Gweinidog dros Lywodraeth Leol wedi cyhoeddi cyfeiriad yr arolwg o'r ffin rhwng siroedd wedi'u cadw Powys a Morgannwg Ganol yn ardal Pontsticill. Bydd cam cychwynnol yr Arolwg yn dechrau'n fuan a bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn gobeithio cwblhau hyn drwy ohebiaeth.

10. GWELLA CYFATHREBU 2009/2010

10.1 Ystyriodd y Comisiwn oblygiadau a manteision cael stondin yng nghynadleddau blynyddol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ac Un Llais Cymru (ULIC). **Cytunwyd** archwilio i'r posibilrwydd o gael stondin yng nghynhadledd CLILC er mwyn codi ymwybyddiaeth am yr Arolygon Etholiadol cyfredol. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn â stondin yn ULIC er mwyn codi ymwybyddiaeth am swyddogaeth gyffredinol y Comisiwn ac am arolygon Cymunedol.

10.2 **Cytunwyd** y byddai'r Cadeirydd a'r Ysgrifennydd yn mynychu cynhadledd CLILC fel cynrychiolwyr. Yn ogystal, byddai angen 2 aelod o'r Ysgrifenyddiaeth i wylio'r stondin. Penderfynir y trefniadau ar gyfer mynychu cynhadledd ULIC yn nes ymlaen.

10.3 **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifennydd yn llunio taflen ar gyfer y ddau ddigwyddiad. Ystyriwyd bod y Cylchlythyr cyntaf yn ddigon da i'w ddefnyddio yn y digwyddiad, ond byddai angen ei diweddaru er mwyn cyfeirio at yr Arolygon Etholiadol ac fe'i gelwir yn Rhifyn y Gynhadledd.

10.4 **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn trefnu prynu cynhyrchion cynhadledd fel matiau diod, mygiau ac ysgrifbinnau a fyddai'n dangos logo a rhif ffôn y Comisiwn. **Cytunwyd** y byddai crysau polo, cotiau cynnes a bathodynnau enw o ansawdd da â logo'r Comisiwn arnynt yn cael eu prynu ar gyfer aelodau staff.

11. UNRHYW FATER ARALL

Llythyr Cylch Gwaith

11.1 Mae'r Comisiwn bellach wedi derbyn y llythyr Cylch Gwaith oddi wrth yr Is-adran Noddi. Ystyriodd y Comisiwn gynnwys y llythyr a fyddai angen ei gynnwys bellach yn y Cynllun Gweithredol. **Cytunwyd** y byddai'r Cynllun Gweithredol diwygiedig yn cael ei ystyried yng nghyfarfod mis Mai a byddai hyn yn oedi'r cyflwyniad i'r Is-adran Noddi. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifennydd yn paratoi llythyr i'r Cadeirydd ymateb i'r Llythyr Cylch Gwaith. **Cytunwyd** y byddai copi o'r ddogfen 'Rhannu Cyfrifoldebau' yn cael ei dosbarthu i'r holl Gomisiynwyr.

Fideogynadledda (FG)

11.2 Adroddwyd bod yr Ysgrifennydd wedi archwilio'r posibiliadau a'r gost o gael FG yn y Comisiwn. Y dewis mwyaf cost-effeithiol fyddai rhannu cyfleusterau FG â CCNCau eraill yn ardal Caerdydd. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifennydd yn mynd ar drywyddd hyn.

Nodyn Cyfarwyddyd

11.3 Nododd Aelodau y Nodyn Cyfarwyddyd diwygiedig a rhoddwyd 48 awr iddynt gyflwyno sylwadau.

Y Siarter Agor Drysau

11.4 Nododd y Comisiwn Siarter Agor Drysau, sy'n cael ei hyrwyddo ymhlith yr holl gyrff Cyhoeddus gan Gwerth Cymru. Mae'r Siarter ar gyfer caffael cyfeillgar i fusnesau bach a chanolig gyda'r nod o chwalu rhwystrau a gosod safon ofynnol o ran arfer da ar gyfer y sector cyhoeddus a Busnesau Bach a Chanolig. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn ymgofrestru. Trwy ymgofrestru â'r Siarter bydd hyn yn galluogi'r Comisiwn i gyrraedd lefel 3 yn ôl y gofyn yn y Fframwaith Asesu Caffael Cynaliadwy (FfACC).

12. DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF

12.1 Pennwyd dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf fel a ganlyn:

12 Mai 2009
17 Mehefin 2009
15 Gorffennaf 2009
17 Medi 2009